# Pwyllgor Deisebau

## PET(3)02-08 (p1): 31 Ionawr 2008

## Cyfeirnod y cyfeirnod P-03-080:" "Yr Hen Ysgol a Thy’r Ysgol, Caergeiliog

#### Geiriad y ddeiseb: Gweler papur PET(3) 02-08 (p1A) i weld geiriad y ddeiseb.

#### Diben

Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y ddeiseb hon.

#### Cefndir

Mae’r ddeiseb yn galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ofyn bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn diddymu’r penderfyniad a wnaed gan y Swyddfa Gymreig, ym 1989, i gyflwyno Offeryn Statudol, a oedd, unwaith ei fod wedi’i basio, yn rhoi’r hawl i Ymddiriedolaeth Esgobaeth Bangor gael gwared â’r eiddo a elwir Hen Ysgol a Thy’r Ysgol, Caergeiliog.

Mae’r prif ddeisebwr wedi nodi bod y cais hwn yn seiliedig ar dystiolaeth y gall ef ei darparu sy’n cwestiynu perchnogaeth yr eiddo hwn.

Mae’r deisebwr hefyd wedi darparu ffeil sylweddol o wybodaeth ychwanegol. Mae hon yn cael ei hystyried gan dîm cyfreithiol Gwasanaethau Seneddol y Cynulliad, a bydd crynodeb o’r wybodaeth ychwanegol hon yn cael ei darparu i’r pwyllgor unwaith bo’r gwaith hwn wedi’i gwblhau.

**Y Gwasanaeth Pwyllgorau**

**Ionawr 2008**